Jane Hutt AC/AM
Y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes
Minister for Budget and Business Management

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref yourref
Ein cyf/Our ref ourref

Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Mehefin 2007

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU CYNHYRCHION SY'N DOD O ANIFEILIAID (MEWNFORION TRYDYDD GWLEDYDD) (CYMRU) (DIWYGIO) 2007

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu mae'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â'r Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2007 i rym yng Nghymru yn unol â Lloegr a'r Alban. Gwnaethpwyd y Rheoliadau hyn ar 12 Mehefin 2007, ac fe'u gosodwyd gerbron y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2007 a byddant yn dod i rym ar 14 Mehefin 2007.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007 (Rheoliadau POAO), sy'n rhoi ar waith reolau mewnforio y Gymuned Ewropeaidd a gynlluniwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid rhag y peryglon sy'n gysylltiedig â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fewnforiwyd o drydydd gwledydd. Maent yn gweithredu dau newid a gyflwynwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC, a ddaeth i rym ar 4 Mehefin 2007. Y newid cyntaf yw disodli'r rhestr bresennol o gynhyrchion, sy'n amodol ar archwiliadau milfeddygol ar fewnforion (sydd wedi'i gynnwys ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC) mewn mannau a gymeradwywyd mewn porthladdoedd neu feysydd awyr, ac fe'u gelwir yn Fannau Archwilio ar y Ffin. Mae'r ail newid yn ymwneud â rheolau newydd y Gymuned sy'n rheoli mewnforio cynnyrch bwyd cyfansawdd.

Yn ei hanfod, addasiad technegol yw cyflwyno rhestr newydd o gynhyrchion sy'n amodol ar archwiliadau mewnforio, ac fe'i cynlluniwyd yn bennaf i sicrhau bod y rhestr yn gliriach ac yn haws i'w gweithredu. Serch hynny, mae pwysigrwydd a brys y newid hwn yn ymwneud â'r cyfeiriad a geir yn Rheoliadau presennol 2007 at y rhestr o gynhyrchion ym Mhenderfyniad y Comisiwn 2002/349/EC, oherwydd mae'r Penderfyniad hwnnw bellach wedi'i ddirymu. Mae'r penderfyniad newydd yn cynnwys rhestr lawn, wedi'i diwygio o'r cynhyrchion sy'n amodol ar reolaethau mewnforio'r UE - o gynhyrchion megis cig a llaeth, i sgil-gynhyrchion anifeiliaid megis crwyn a blew. Mae'r diffiniad o'r 'cynnyrch' y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau yn hollbwysig er mwyn gweithredu'r Rheoliadau a heb y diffiniad hwnnw, ni fyddai'r Rholiadau yn cael fawr o effaith, os o gwbl. Byddai hefyd yn bosibl i herio neu o leiaf wynebu ansicrwydd cyfreithiol mewn perthynas â'u gweithredu neu'r pwerau i'w

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 02920 82 5111
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Jane.Hutt@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

gweithredu, pe bai unrhyw un yn ceisio mewnforio cynnyrch nad oedd yn cydymffurfio â rheolau mewnforio'r UE.

O ran cyflwyno'r rheolau mewnforio newydd ar gyfer cynhyrchion bwyd, rydym wedi chwarae rhan yn y broses o ddatblygu'r rheolau hyn ac rydym yn hapus eu bod yn cydymffurfio â'r dadansoddiadau risg presennol ar gyfer y cynnyrch dan sylw. Mae mewnforio'r cynhyrchion hyn wedi bod yn amodol ar reolau cenedlaethol ac mae rheolau newydd y Gymuned yn cyfateb i'r amodau y buom yn eu gweithredu o dan y trwyddedau mewnforio cenedlaethol.

Daeth Rheoliadau tebyg i rym yn Lloegr a'r Alban ar 7 Mehefin 2007 ac mae Gogledd Iwerddon yn gobeithio gwneud eu Rheoliadau hwy cyn hir. Er nad oes Mannau Archwilio ar y Ffin yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n rhaid rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith yng Nghymru fel yng ngweddill y DU er mwyn sicrhau bod gofynion yr UE yn cael eu gweithredu yn gyson ac er mwyn diogelu iechyd pobl ac anifeiliaid, oherwydd fe allai'r cyfyngiadau o ran gorfodi Rheoliadau POAO arwain at achosion o glefydau. Felly mae'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau yn dod i rym ar 14 Mehefin 2007.

Nid ydyw'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad nac Asesiad Effaith Rheoleiddiol oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer gweithredu a'r ffaith bod yr addasiadau technegol hyn, er yn bwysig, yn fân iawn ac na fyddent yn cael effaith o ran cost ar y diwydiant. Serch hynny, paratowyd Memorandwm Esboniadol ac mae wedi'i osod gyda'r Rheoliadau gerbron y Swyddfa Gyflwyno.